

31^{ain} Mai 2023

Annwyl Gwern,

Diolch am eich nodyn dyddiedig y 29^{ain} Mai. Rwy'n deall fod cynrychiolwyr rhai carfanau eraill yn y mudiad Annibyniaeth wedi gwneud cyhuddiadau go ddifrifol ynglyn â natur Gwlad fel plaid wleidyddol, a'r weddusrwydd o'n cynnwys yn swyddogol mewn gweithgareddau YesCymru. Petasai unrhyw sail i'r cyhuddiadau hyn, mi fyddan nhw'n rhoi YesCymru a chi yn bersonol mewn safle braidd yn anodd, ac rwy'n penderfynol o eisiau osgoi hynny.

Pwrpas y llythyr hwn felly - yr hwn fod croeso i chi rannu gyda'r rhai sydd wedi gwneud y cyhuddiadau, neu gyda'r cyhoedd yn fwy eang - ydy dangos nad oes unrhyw sail iddyn nhw, a nad ydy Gwlad dim yn blaid "adain dde eithafol" (i ddefnyddio eu geiriau nhw) mewn unrhyw ystyr o gwbl.

Mi roddaf ymateb i bob pwynt unigol sydd wedi gwneud, ond yn gyntaf mi hoffwn i gychwyn gyda rhai pwyntiau cyffredinol sy'n bwysig i gael ar deall:

- Dydan ni ddim yn disgwyl i bawb cytuno gyda ni. Rydan ni'n derbyn y bydd pobl eraill yn y mudiad annibyniaeth yn anghytuno gyda rhai o'n safbwyntiau ni, a ninnau yn anghytuno yr un mor gryf gyda rhai o'u safbwyntiau nhw. Ond mae gwahaniaeth mawr rhwng anghytuno gyda rhywun, a chwestiynu eu cymeriad nhw a'r hawl sydd ganddyn nhw i ddal eu safbwynt.
- Osgo Gwlad fel plaid ydy bod mor gynhwysol a goddefgar â phosib, ac rydan ni'n meddwl hynny mewn gwir ystyr y gair. Hynny yw, dydy neb yn 'goddef' y pobl eu bod yn cytuno â nhw eisoes – rhaid bod lle am anghytundeb os ydy'r gair 'goddefgar' i feddwl unrhywbeth o gwbl. Felly, dydan ni ddim yn disgwyl nac yn gofyn i'n haelodau i gyd fod yn unfryd am bopeth. Rydan ni'n disgwyl i aelodau derbyn ein [Hamcanion ac Egwyddorion](#), ein [Cyfansoddiad](#) (Saesneg yn unig, mae'n ddrwg gen i) a'n [Maniffesto](#) – heblaw am hynny maen nhw'n rhydd i feddwl ac i ddweud mwy na lai beth eu bod nhw'n eisiau.
- Mae rhai cyfyngiadau ar hynny wrth gwrs, ac mae'r Cyfansoddiad yn rhoi i ni yr hawl i ddiarddel bobl sy'n cymryd rhan mewn "*conduct incompatible with the interests and reputation of the Party*". Hyd yn hyn, dim ond dwy enghraifft o hyn sydd wedi digwydd:
 - Rhywun oedd wedi bod yn aelod o'r dechreuad, ond a gafodd ei farnu yn euog o gam-drin plant. Fe'i ddiarddelwyd ar unwaith wrth i'r dyfarniad cael ei gyhoeddi, a does dim cyswllt wedi bod gyda fo ers hynny.
 - Rhywun o'r Unol Daleithiau a ymaelododd (fel mae'n digwydd mae gennym ni nifer o aelodau o dramor, yn cynnwys yr Unol Daleithiau, Awstralia a mannau eraill), ond yn yr achos hwn fe ddaeth i'n sylw fod o ar y pryd mewn carchar yno am ymosodiad hiliol. Fe'i ddiarddelwyd ar unwaith, ac mi wnaethon i [gyhoeddi hyn ar Drydar](#) ar y pryd ([hefyd yn Saesneg](#)):

"Rydym yn croesawu aelodau newydd sy'n cefnogi ein hamcan o Gymru annibynnol deg a llewyrchus.

Ond heddiw bu rhaid i ni wrthod aelodaeth i rywun ag euogfarn ddiweddar am ymosodiad hiliol.

Rydym yn benderfynol o beidio â chael unrhyw gysylltiad â'r Chwith bell neu'r Dde bell."

- Er hynny i gyd, rydan ni wedi cael ein cyhuddo o'r blaen am fod yn 'adain dde eithafol', ac fel canlyniad o hynny mae rhai bobl sydd wirioneddol yn dal safbwyntiau adain dde eithafol wedi dangos diddordeb mewn ymuno gyda ni neu bod yn aelod am gyfnod. Mae'r cyfryw rhai wedi cael cymaint o wrthwynebiad i'w syniadau oddi wrth aelodau eraill Gwlad, fel bod nhw ddim wedi aros ond wedi gadael o'u bodd eu hunain.

Wedi hynny i gyd, symudwn ymlaen at y pethau unigol sydd wedi cael eu dweud amdanom ni gan ein cyhuddwyr...

- 1) "[Sylwadau hynod o ragfarnllyd yn erbyn mwslemiaid](#)" (gyda dolen at erthygl yn Golwg360 o dair mlynedd yn ôl).

Cefndir i hwn ydy [postiad ar dudalen Facebook Gwlad](#) yn trafod achos Sahar al-Faifi, aelod Foslemaidd Plaid Cymru a diarddelwyd o'r Blaid honno am wneud datganiadau wrth-Semitaidd. Dyw'r erthygl, a 'sgrifennwyd gan Aled Gwyn Jôb ar 18^{fed} Tachwedd 2019, dim yn ynghan gair am y ffaith fod al-Faifi yn Foslem yn benodol, ond yn ei beirniadu am wisgo niqab (sef mwgwd ar ei hwyneb o'r fath sy'n cuddio popeth heblaw y llygaid) ac yn sôn am bwysigrwydd i wynebau pobl cael eu gweld yn glir er mwyn hyrwyddo didwylledd ac ymddiried rhwng unigolion. A dyna mwy na lai y cwbl (dim ond nodyn o 301 o eiriau oedd hi).

Mae'r erthygl yn Golwg360 yn dweud mwy am y sylwadau o dan y postiad nag am y postiad ei hunan. O'r rheiny, yr unig un gan aelod Gwlad ydy hwn gan Richard A. Graves:

"I understand why a woman chooses to wear a niqab mainly for cultural and religious reasons. We should not discuss in a negative way as we will fall into the trap of being seen as far right and not being inclusive to all Welsh people regardless of religion, culture gender, sexuality and culture and identity... Antisemitism and Islamophobia has no place in political groups or parties."

Ga'i bwysleisio eto, *aelod Gwlad* sy'n dweud hynny!

Mae peth o drafod yn yr erthygl Golwg360 hefyd am rywun o'r enw Joanne Davies a alwodd y niqab yn "ddilledyn afiach", gyda rhywun o'r enw Rob Mash yn ei galw yn "*one of your candidates*". Mae hyn yn gyfrinach llwyr i fi, gan fod neb o'r enw Joanne Davies erioed wedi bod yn aelod Gwlad, heb sôn am ymgeisydd.

- 2) "Ymgeisydd y Blaid yn cefnogi'r Islamaffôb a'r troseddwr adain dde eithafol Tommy Robinson" (gydag atodiad yn dangos postiad ar Facebook gan Karl-James Langford, dyddiedig 16^{eg} Gorffennaf 2018, yn sôn am ymgyrch i ryddhau Tommy Robinson oedd mewn carchar ar y pryd am ddirmyg llys).

Mae sawl pwynt i drafod fan hyn. Yn gyntaf oll, er ei fod yn wir bod Karl yn aelod Gwlad ar y pryd, ers hynny mae o wedi gadael y blaid o'i fodd ei hunan gyda'r *parting shot*: "*I can't support Gwlad anymore. A pro vaccination pro woke socialist yes party.*"

Er hynny, pwnc y postiad gan Karl ydy'r ymgyrch i ryddhau Robinson o'r carchar. Does dim awgrymiad fod Karl ei hunan yn dweud pethau Islamaffôbig, na'i fod o yn cytuno'n benodol gydag unrhywbeth yn arbennig fod Robinson wedi dweud. Mae'n bosib i gytuno gyda rhai pethau fod rhywun yn dweud (ac mae Robinson yn dweud lot ar lawer o bynciau) heb gymeradwyo popeth ganddyn nhw – ac mae'n bosib i ymgyrchu dros ryddid rhywun i siarad heb gytuno gydag *un gair* ei bod nhw wedi dweud.

Yn fyr, onibai bod rhywun yn gallu dangos fod Karl wedi dweud pethau Islamoffôbig ei hunan, neu yn cymeradwyo pethau o'r fath gan Robinson yn benodol, a bod Gwlad fel plaid yn gwybod am hyn ac yn cymeradwyo Karl amdano, yna mae'n anodd i ddirnad beth yn union fod Gwlad yn cael ei chyhuddo ohono.

- 3) "Cefnogi ffasgydd Donald Trump" (gyda [dolen at erthygl ar ein gwefan](#), gan Aled Gwyn Jôb, dyddiedig 3/11/20, sef dyddiad yr Etholiad Gyffredinol yn yr Unol Daleithiau)

Hyd y gwela i, swm a sylwedd y cyhuddiad hwn ydy galw Trump yn ffasgydd (sydd mor hurt a phlentynnaidd fel wna'i ddim gwastraffu fy amser yn ymateb) ac wedyn collfarnu Aled am beidio â chollfarnu Trump.

Yn yr erthygl i hunan, mae Aled yn cydnabod bod gan Trump "*blunt and abrasive style*" ac aiff ymlaen i wrthgyferbynu *arddull* y dyn gyda'i *weithrediadau* tra mewn grym, yn tynnu sylw arbennig at lwyddiant ei bolisi blaengar o adsefydlu cyn-carcharorion duon, a'r cynnydd sylweddol mewn cefnogaeth iddo ymysg pleidleiswyr du a Latino.

Pwrpas yr erthygl hon yng nghyd-testun gwleidyddiaeth Cymreig ydy dadlau fod Trump yn fwy barod na Biden i roi diddordebau yr Unol Daleithiau (a'i phobl o bob lliw a thras) uwchben diddordebau gwledydd eraill; ac yn yr un modd mae Gwlad yn fwy barod i roi diddordebau Cymru (a, fel goblygiad, ei phobl o bob lliw a thras) uwchben diddordebau gwledydd eraill, yn fwy na charfanau eraill yn y mudiad cenedlaethol Cymreig.

Y tri pwynt rheiny ydy'r unig rhai bod ein cyhuddwyr ym rhoi mewn testun, ond mae na rhai pethau eraill yn y sgrinluniau eu bod nhw wedi atodi. Awn ymlaen i ddelio gyda nhw:

- 4) Sgrinlun o erthygl gan Aled Gwyn Jôb ar ein hen wefan (sydd ddim wedi bodoli ers pedair blynedd) yn sôn am y pwysigrwydd o wragedd yn cael plant er mwyn cadw cymdeithas yn gynladwy, ac yn cwestiynu y polisi o anelu at gytbwys 50-50 o ddynion a merched yn y Senedd.

Mae Aled yn rhywun 'ceidwadol yn gymdeithasol', fel fy mod innau i fod yn onest, ac er bod y tueddiadau hyn yn anffasiynol ar hyn o bryd mae'n gam mawr i'w collfarnu fel eithafol. Fel mae'n digwydd, mae hon yn un o nifer fach o erthyglau ar ein hen wefan ([eingwlad.wales](#)) wnaeth ddim cyrraedd trwy yr hidlydd i gael eu hail-gyhoeddi ar ein gwefan newydd ([gwlad.org](#)) ar ôl i banel ohonom ni (yn cynnwys ein Cadeirydd, Siân Caiach, a'm gwraig fy hunan sy'n gweithio fel Deintyddes) dyfarnu fod gormod o risg o'i chamdehongli a'i defnyddio yn ein herbryn ni – penderfyniad oedd yn llygad ei le, mae'n debyg!

Eto, nid ydym ni'n cyfrif fod yn anffasiynol fel trosedd.

- 5) Sgrinlun o edefyn ar Drydar lle bod pwy bynnag oedd yn rhedeg y cyfrif ar y pryd (wn i ddim pwy, roedd hyn cyn fy amser i) yn dweud bod Delyth Jewell yn "*Social justice warrior that will do nothing for Wales*", a Royston Jones / 'Jac o' the North' (sy'n aelod Gwlad) yn ychwanegu bod ei chefnidir mewn "Women's rights and International Development" yn ei gwneud hi'n annhebygol i berfformio'n dda fel AS newydd Plaid yn ne-ddwyrain Cymru.

Dydy hi ddim yn amlwg beth ydy'r cyhuddiad yma. Mae'n hysbys ein bod ni mewn Gwlad yn tueddu fod yn amheus am bobl sy'n siarad llawer am gyfiawnder cymdeithasol, a hawliau merched, a.y.y.b,

ond sydd wedyn yn arddel polisïau sy ddim yn llwyddo i gyflawni yr amcanion hyn. Cymharer (3) uchod lle bod Aled yn dadlau fod Donald Trump wedi perfformio'n weddol dda wrth *gyflawni* amcanion blaengar, er gwaethaf ei ddiffyg rhethreg ar y pwnc.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'n debyg bod Delyth Jewell yn rhan frwd o'r gymblaid (i bob pwrpas) rhwng Plaid Cymru a Llafur sydd, er gwaethaf eu holl rhethreg, dim yn llwyddo i gyflawni unrhywbeth o bwys o blaid hawliau merched na datbyglu rhyngwladol. I'r gwrthwyneb, o dan eu llywodraeth nhw mae canran cywilyddus o ferched a'u plant yn dal yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ac nid yw Delyth Jewell na phobl tebyg iddi hi yn ymddangos i fod yn gwneud unrhywbeth ymarferol i leddfu hynny.

- 6) Sgrinlun o [erthygl ar ein tudalen Facebook](#) (eto gan Aled Gwyn Jôb) o 10fed Awst 2020, yn beirniadu YesCymru am apwyntio Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Yn debyg iawn i'r pwyntiau a wneid yn y paragraff uwchben, prif pwrpas yr erthygl ydy gwneud y pwynt nad yw clebran am y pethau hyn o hyd yn arwain, o angenrhaidd, at eu cyflawni nhw. Rydych chi'n gwybod yr hanes cystal ag unrhyw un pwy oedd yn rhedeg YesCymru ar y pryd, a'r gyfeiriad yr oedden nhw'n mynd.

Yn enwedig, roedd Aled yn darogan y byddai gwneud peth mawr o 'Amrywiaeth a Chynhwysiant' fel yr oeddid yn gwneud ar y pryd yn fwy debyg i rwygo'r mudiad, ac arwain at 'witch-hunts' yn erbyn unigolion. Dyma'n yn union beth ddigwyddodd, er enghraifft yn achos Nikita Jones, y fath o berson wych y dylai'r mudiad fod yn gwthio i'r blaen, ond a chafodd amser ofnadwy oddi wrth yr union pobl ar y pwyllgor gyda hi a oedd yn clebran am y pethau hyn o hyd.

Mae'n debyg fod Aled yn berffaith iawn i ddweud beth y ddywedodd, felly.

- 7) Sgrinlun o [erthygl y 'sgrifennais i ar Nation.Cymru ar 8^{fed} Hydref 2018](#), adeg y daeth Adam Price yn arweinydd Plaid Cymru

Gan mai dim ond sgrinlun y maent yn rhoi, heb unrhyw sylw amdano, ac mae'n sgrinlun o baragraff lle fy mod i'n dweud fy mod i'n cytuno gydag Ifan Morgan Jones am rywbeth, mae'n fy nrysu fi yn llwyr beth ydy eu problem.

O bosib fy mod i'n dweud nad yw'r iaith Gymraeg, neu hawliau i bobl traws, neu aros yn yr Undeb Ewropeaidd, ymysg blaenoriaethau trwch y boblogaeth yng Nghymru, uwchben cyflwr yr economi a gwasanaethau cyhoeddus.

Onid yw hyn yn berffaith wir, heddiw fel yr oedd bryd hynny? Beth bynnag byddai rhai ohonom ni yn mynnu, onid dyna'r realiti y dylai'r mudiad cenedlaethol delio gyda fo?

- 8) Sgrinlun o [erthygl gan Aled Gwyn Jôb ar Facebook, ar 30^{fed} Hydref 2019](#), yn sôn am lwyddiant sawl pleidiau cenedlaetholgar newydd yr Eidal yn etholiadau y mis hwnnw.

Unwaith eto mae'n anodd i mi ddirnad beth ydy'r broblem gyda hyn.

Gan mai grŵp o amryw pleidiau sydd dan sylw yn yr erthygl, ac mae'n bosib fod elfennau adain-dde-eithafol mewn rhai ohonyn nhw, efallai mai dyna'r cwyn.

Ond dydy Aled dim yn cymweradwyo unrhywbeth amdany'n nhw, dim ond yn dweud bod eu llwyddiant nhw yn awgrymu fod *"a renewed desire for national sovereignty, tradition, culture, identity and a sense of place are all making a big political comeback"*; ac siŵr o fod mae hynny'n beth da o safbwynt y mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn gyffredinol.

- 9) Mae'r sgrinlun terfynol yn yr atodiad yn dyfyniad o'r erthygl am Donald Trump a ddeliwyd amdani ym mhwynt 3 uchod, felly dim byd mwy i ddweud amdano fan hyn.

-

Felly os mai dyna sylwedd cyhuddiadau ein cyhuddwyr, dadleuwn i nad oes unrhywbeth o bwys ynddo. Yn bendant does dim mymryn o dystiolaeth bod Gwlad erioed wedi tueddu at syniadau adain de eithafol.

I orffen, hoffwn ychwanegu rhai dyfyniadau eraill o erthyglau ar ein blog sy'n tanlinellu ein gwrthwynebiad i unrhyw fath o hiliaeth neu 'ethno-nationalism':

- *"I am in favour of immigration and Gwlad are not an anti-immigration party"* – [fan hyn](#) (25/4/19) a [fan hyn](#) (25/7/19).
- *"We in the nationalist movement need to be completely clear about this: a black or Asian Welshman is a Welshman, full stop. You don't have to be white to be Welsh."* - [fan hyn](#) (7/6/19) a [fan hyn](#) (25/7/19).
- *"We need to be absolutely clear that the idea of an 'ethnically pure Wales' is for the birds... If trying to define who is Welsh and who isn't, then trying to do it by ethnicity or by features or by the colour of skin, hair or eyes is a complete non-starter."* – [fan hyn](#) (4/9/20).
- *"Rydau ni wedi gosod allan ein gweledigaeth ni am groesawu pobl o bob tras i fewn i Gymru mewn amryw erthyglau eraill yn y tudalennau hyn, tra yn mynnu eu bod nhw'n troi yn Gymry yn yr ystyr llawnaf ac nid yn unig yn 'Brydeinwyr'. Does dim ffordd gwell o gyflawni hynny na rhoi pob cyfle a chalondid iddyn nhw ddysgu Cymraeg, a byddan ni'n parhau i ymgyrchu am hyn ar bob lefel."* – [fan hyn](#) (7/10/21).

Gobeithio fod hyn oll yn ddigon i wneud y pwynt. Mae ffwlbri plentynnaidd fel hyn yn gwastraffu fy amser i a'ch amser chi yr un modd, a gobeithio y cawn ni roi o o'r neilltu.

Yr eiddoch yn gywir,

Stephen Morris

[Cydlunydd Polisi ac Ysgrifennydd Aelodaeth dros dro, Gwlad].